**DEDDF TRWYDDEDU ARBENNIG 2003 IS-BWYLLGOR - COFNOD PENDERFYNIAD – 13 AWST 2020**

**YN BRESENNOL:**

**Cynghorwyr** – D Lewis (Cadeirydd), T Beedle, ac A Pucella

**Swyddogion** – A Lee, Y Witchell, MA Galvin, S Jones, ac M Pitman

**Gwahoddedigion** - D Hughes, I David, E Prosser, T Poole, ac L Pope

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **DEDDF TRWYDDEDU 2003**<br>**ADRAN 17**<br>**CAIS AM DRWYDDED MANGRE** |
| Penderfyniad a Wnaed | Dyma gais am drwydded safle a gyflwynwyd gan Ganolfan Lles Cymunedol Gilfach Goch ar gyfer y Pavilion, Parc Lles, Evanstown, Gilfach Goch.<br>Mae'r Is-bwyllgor wedi ystyried y cais ac wedi clywed y sylwadau a wnaed gan yr Ymgeisydd a'r gwrthwynebwyr yn y mater hwn.<br>Mae'r ymgeiswyr wedi gwneud cais am Drwydded ar gyfer gwerthu alcohol:-<br>o Ddydd Llun hyd Ddydd Sul 1200 i 2300 o'r gloch.<br>Ac ar gyfer<br>Cerddoriaeth Fyw a Cherddoriaeth wedi'i Recordio:<br>o Ddydd Llun hyd Ddydd Sul: 0800 i 2330 o'r gloch.<br>Mae'r Gwrthwynebwyr yn cynnwys aelodau o'r Gymuned Leol sy'n gwrthwynebu caniatáu'r Drwydded ar y sail y byddai gwneud hynny'n tanseilio amcanion trwyddedu Trosedd ac Anhrefn, Diogelwch y Cyhoedd, atal niwsans cyhoeddus; ac amddiffyn plant rhag niwed.<br>Mae'r Gwrthwynebwyr yn pryderu y bydd parc chwarae plant yn agos i'r safle trwyddedig, ac yn credu y bydd yfed alcohol ar y safle yn cael effaith andwyol ar y cyffiniau yn |

| | |
|---|---|
| | ogystal ag ar y parc cyhoeddus, maent hefyd yn bryderus ynghylch chwarae cerddoriaeth uchel ac effeithiau hyn ar yr ardal breswyl o amgylch y safle. Mae'r Gwrthwynebwyr hefyd yn credu y bydd plant yn y parc yn gweld pobl o dan ddylanwad alcohol ac yn ymddwyn yn amhriodol, gan achosi niwsans cyhoeddus i'r ardal gyfan a pheryglu diogelwch y plant.<br>Mae'r Ymgeisydd wedi hysbysu'r Is-bwyllgor y bydd y tîm bowls a'r tîm rygbi lleol yn defnyddio'r safle, a bod gan y clwb rygbi lleol flynyddoedd lawer o brofiad o redeg eiddo trwyddedig. Dywedwyd wrth yr Is-bwyllgor hefyd fod y clwb rygbi wedi gwneud sawl cais am hysbysiadau digwyddiad dros dro ac iddynt fod yn ddigwyddiadau llwyddiannus, ac nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw gwynion i'r heddlu o ganlyniad i gynnal y digwyddiadau hyn.<br>Dywedodd yr Ymgeisydd wrth yr Is-bwyllgor y byddai'r ganolfan yn plismona'r ardal o amgylch y pafiliwn ac yn archwilio'r perimedr yn rheolaidd. Dywedwyd wrth yr Is-bwyllgor hefyd y byddai'r drysau a'r ffenestri ar gau pan fydd cerddoriaeth fyw yn chwarae ar y safle. Nododd yr is-bwyllgor hefyd fod yr Ymgeisydd wedi cytuno i weithredu cynllun herio 25 o fewn y safle.<br>Mae'r Is-bwyllgor hefyd wedi nodi nad yw'r Heddlu, yr Awdurdod Tân na Diogelu'r Cyhoedd wedi gwrthwynebu'r cais am drwydded.<br>Mae'r Is-bwyllgor, wrth ystyried yr holl gynrychiolaethau a wnaed yn ystod y gwrandawiad, wedi penderfynu nad ydynt yn argyhoeddedig y bydd rhoi Trwydded yn tanseilio'r pedwar amcan trwyddedu ac, ar y sail honno, wedi penderfynu rhoi trwydded ar y telerau canlynol:-<br>bydd ar gyfer gwerthu alcohol rhwng 1200 a 2300 o’r gloch ac<br>ar gyfer chwarae cerddoriaeth uchel rhwng 8am a 2300 o’r gloch (11pm)<br>Bydd yr Is-bwyllgor, er mwyn sicrhau y bodlonir yr amcanion |

| | |
|---|---|
| | trwyddedu, yn gosod yr amodau canlynol ar y drwydded yn ychwanegol at y rhai a gynigir yn yr atodlen weithredu:-<br>1. Dylid cadw lluniau teledu cylch cyfyng am o leiaf 30 diwrnod a'u cynhyrchu i'r heddlu ar gais.<br>2. Ni chaiff unrhyw alcohol a brynir yn y fangre drwyddedig gael ei gludo i'r tir o amgylch y safle.<br>3. Dim ond ar ardal batio'r safle y caiff cynwysyddion plastig eu defnyddio.<br>4. Bydd arwyddion yn cael eu harddangos ar y safle yn dweud na chaiff unrhyw alcohol gael ei gludo i dir y tu allan i'r ardal drwyddedig. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 12 Awst 2020 |